# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Glanmorfa Care Home Ltd**

**52-54 Station Road**
**Cydweli**
**SA17 4UR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

01/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Glanmorfa Care Home Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Glanmorfa Care Home Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Ionawr, 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn siarad yn gadarnhaol am y gwasanaeth. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm o staff cyson, sy'n wybodus am y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r awyrgylch hamddenol yn helpu'r bobl ac ymwelwyr i deimlo'n gyfforddus. Caiff pob unigolyn ei annog i wneud ei benderfyniadau ei hun am sut i dreulio ei amser. Caiff yr ystafelloedd cymunedol eu defnyddio'n aml gan y bobl i ryngweithio â'i gilydd, â'u hymwelwyr a gyda'r staff. Mae rheolwr newydd wedi dechrau gweithio yn y gwasanaeth yn ddiweddar.

Mae meysydd i'w gwella wedi'u nodi mewn perthynas â risgiau ar y safle a'r broses o oruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i fynd i'r afael â hyn.

## Llesiant

Caiff y bobl eu cefnogi mewn modd sensitif i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae arferion effeithiol yn y cartref a chaiff y bobl eu hannog i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau a chynnal cysylltiadau cadarnhaol â phobl sy'n bwysig iddynt. Gwelsom y staff gofal yn cefnogi ac yn annog hobïau a diddordebau'r bobl. Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *'I like my routine here'.* Mae'r gwasanaeth yn cyflogi cydgysylltydd gweithgareddau. Caiff gweithgareddau eu cynllunio ac mae'r bobl yn cael eu cefnogi mewn gweithgareddau grŵp neu un i un o'u dewis nhw i hyrwyddo llesiant da. Mae'r staff hefyd yn parchu dewis y bobl o beidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau. Gall y bobl ddewis treulio eu hamser yn eu hystafelloedd neu yn yr ardaloedd cymunedol yn gwylio'r teledu, yn ymgymryd â'u hobïau neu'n cymdeithasu. Mae'r gwasanaeth yn darparu cludiant er mwyn i'r bobl fynd allan i'r gymuned. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom y bobl yn defnyddio gwasanaeth cymorth lleol i'r rhai ag anawsterau gwybyddol ac anghofrwydd. Roedd y bobl yn edrych ymlaen at y daith.

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae gan y bobl gydberthnasau da â'u cydbreswylwyr a'r staff sy'n rhoi cymorth iddynt. Mae'r rhyngweithio rhwng y bobl a'r tîm o staff yn ofalgar ac yn gyfeillgar. Caiff gofal ei ddarparu'n gyson sy'n galluogi'r staff i feithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r bobl. Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, '*What more could I want. It is fantastic here…They look after me so well'*.

Nid yw'r bobl yn byw mewn cartref sy'n cefnogi llesiant da yn gyson. Mae'r bobl yn rhydd i gerdded o amgylch y cartref a gallant ddefnyddio'r ardaloedd gwahanol sydd ar gael i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd gwely gyda ffotograffau ac eitemau sy'n bwysig iddynt. Fodd bynnag, ni chaiff risgiau i'r bobl o fewn yr amgylchedd eu nodi na'u hunioni'n gyson gan y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y bobl mor ddiogel â phosibl. Er bod y darparwr yn sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'u cwblhau ar bob aelod o'r staff gofal, mae rhai ohonynt yn gweithio er nad ydynt wedi ymgymryd â gweithdrefnau recriwtio a fetio cadarn. Nid oedd y trefniadau ar gyfer monitro hyfforddiant y staff yn ddigon cadarn i sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi ymgymryd â'r hyfforddiant gofynnol.

Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'r mwyafrif o'r bobl yn y cartref a'r tîm o staff yn siarad Cymraeg. Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym ei fod yn siarad Cymraeg â'r staff; *'Dwi'n siarad Cymraeg 'ma hefyd. Mae rhai staff yn gallu siarad Cymraeg 'da fi. Mae'n wych'.*

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn fodlon ar safon y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am sut y dylid darparu gofal a chymorth er mwyn diwallu anghenion y bobl a sicrhau y gallant gyflawni eu canlyniadau. Ar y cyfan, caiff gofal ei ddarparu yn unol â'r cynlluniau personol. Roedd y cynlluniau personol yn cynnwys safbwyntiau'r unigolyn a hanes cymdeithasol manwl am fywydau'r bobl. Mae'r adolygiadau o gynlluniau personol a'r ffordd y caiff y bobl a'u cynrychiolwyr eu cynnwys yn y broses o adolygu eu gofal yn cael eu hatgyfnerthu gan y rheolwr ar hyn o bryd. Mae'r staff gofal yn sensitif i anghenion unigryw y bobl.

Mae'r bobl a'r staff gofal wedi meithrin cydberthnasau effeithiol. Gwelsom enghreifftiau cyson o ryngweithio cadarnhaol a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn ystod yr arolygiad. Caiff y staff eu hannog a'u cefnogi i ddod i adnabod y bobl yn dda, ac i ddeall eu hanghenion a'u dewisiadau. Dywedodd un o'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, '*The staff are brilliant. They are always about for a chat and a giggle'.*

Caiff iechyd a llesiant cyffredinol y bobl eu hybu. Mae gan y bobl fynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fydd eu hangen arnynt. Mae'r gwasanaeth yn hybu annibyniaeth gynyddol lle y bo'n bosibl ac yn cefnogi'r bobl i fod yn annibynnol o hyd. Dywedodd cynrychiolydd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym fod y gwasanaeth yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant yr unigolyn; *'X has put on some weight, looks so much more healthy. X is a lot more happier than before they came here. X does what X pleases here'.*

Mae'r bobl yn dewis ble y maent am dreulio eu hamser drwy gydol y dydd. Gwelsom fod yn well gan rai pobl aros yn eu hystafelloedd eu hunain tra bod eraill yn eistedd yn y lolfa gymunedol. Caiff cydgysylltydd gweithgareddau ei gyflogi, a gwelsom fod presenoldeb da mewn gweithgareddau grŵp a bod y bobl yn mwynhau cymryd rhan ynddynt. Mae'r bobl hefyd yn cael budd o ymweliadau y tu allan i'r gwasanaeth. Mae'n well gan rai pobl ymgymryd â gweithgareddau un i un yn eu hystafelloedd.

Mae gan y gwasanaeth drefniadau ar waith ar gyfer rhoi meddyginiaeth yn ddiogel. Mae cofnodion rhoi meddyginiaeth ar gael yn y gwasanaeth a bydd y staff yn eu llofnodi fel mater o drefn pan roddir meddyginiaeth i'r bobl. Cynhelir archwiliadau misol o'r feddyginiaeth, ac mae'r rhain yn cynnwys cofnod cywir os oes unrhyw faterion yn ymwneud â meddyginiaeth wedi'u nodi yn ystod y mis. Caiff y staff gofal eu hyfforddi i roi meddyginiaeth. Fodd bynnag, mae angen i rai uwch aelodau o'r staff gofal gael hyfforddiant gloywi ac mae hyn wedi'i drefnu.

Gwelsom y staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol drwy gydol yr arolygiad.

## Yr Amgylchedd

Mae Cartref Gofal Glanmorfa wedi'i leoli ar ddau lawr. Mae ardaloedd cymunedol ar y llawr gwaelod y mae'r bobl yn eu defnyddio i gymdeithasu, bwyta a chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp. Caiff y bobl eu hannog i ddefnyddio'r ardaloedd cymunedol fel y dymunant. Mae ystafelloedd y bobl wedi'u personoli i adlewyrchu eu chwaeth a'u diddordebau, gydag ornamentau, lluniau a dodrefn. Mae'r ardd yn hygyrch, yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac yn darparu ardaloedd eraill i gymdeithasu. Mae pwll hydrotherapi yn y gwasanaeth y mae'r bobl yn cael budd ohono.

Mae gwaith cynnal a chadw arferol yn mynd rhagddo a chynhelir y gwiriadau angenrheidiol ar y cyfarpar. Mae person cynnal a chadw ar gael i'r gwasanaeth a oedd yno ar ddiwrnod ein harolygiad. Dywedodd y rheolwr wrthym am waith cynnal a chadw ac adnewyddu sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn y gwasanaeth i wella'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw ac atgyweirio'r llawr ar ran uchaf y cartref. Mae hyn yn gofyn am fonitro gofalus er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd o safon dda ac yn cefnogi llesiant y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Byddai'r amgylchedd hyd yn oed yn well pe bai'r darparwr gwasanaeth yn parhau i ailaddurno, adnewyddu a diweddaru'r amgylchedd er mwyn diwallu anghenion unigryw y bobl sy'n byw gyda dementia.

Nid oedd yr holl risgiau amgylcheddol yn cael eu hystyried ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom gynhyrchion glanhau a oedd wedi cael eu gadael heb oruchwyliaeth lle gallai'r bobl yn y gwasanaeth gael gafael arnynt.  Dylid storio cynhyrchion o'r fath yn unol â Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH). Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym y byddai'n mynd i'r afael â'r materion hyn ac yn sicrhau bod eitemau yn cael eu storio'n ddiogel. Gwelsom hefyd nad oedd y gweithdrefnau ar gyfer golchi dillad a'r cyfarpar yn ystyried y risgiau o haint neu urddas y bobl yn gyson. Rhoddodd yr Unigolyn Cyfrifol sicrwydd bod gwelliannau yn cael eu gwneud. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

Cafodd y cartref sgôr o bump gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sy'n golygu bod y safonau hylendid yn dda iawn. Caiff y bobl ddewis o amrywiaeth o brydau cartref ffres y gallant ddewis o'u plith. Gwnaeth unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth ystum 'cusan cogydd' wrth esbonio ei farn am y bwyd.

Mae'r cartref yn cynnal gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd i sicrhau bod y cartref yn fan diogel. Gwelsom oruchwyliaeth briodol o ran bod gwiriadau dŵr a diogelwch trydan ar waith

ac mae profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal. Caiff y larymau tân eu profi'n rheolaidd yn y cartref. Nid oedd unrhyw rwystrau wrth yr allanfeydd tân.  Mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng er mwyn rhoi arweiniad i'r staff ar sut i helpu'r bobl i adael yn ddiogel pe bai argyfwng, a oedd yn cael eu hatgyfnerthu drwy gydol yr arolygiad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn ddyddiol. Gwelsom yr Unigolyn Cyfrifol yn rhyngweithio â'r bobl. Er bod yr Unigolyn Cyfrifol yn y cartref bob dydd ac yn ei oruchwylio'n dda, ni allem fod yn sicr fod y trefniadau sydd ar waith i fonitro'r gwasanaeth yn ysgogi gwelliannau i ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Ni welsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn ymgynghori â'r bobl a'r staff er mwyn ysgogi gwelliannau. Ni welsom dystiolaeth bod adolygiadau o Ansawdd y Gofal yn cael eu llunio er mwyn sicrhau ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

Mae rheolwr newydd wedi cael ei benodi'n ddiweddar i oruchwylio'r ffordd y caiff y cartref ei redeg o ddydd i ddydd. Mae'r rheolwr yn brofiadol ac yn meddu ar y cymwysterau addas ar gyfer y rôl. Mae tîm rheoli'r gwasanaeth yn gwirio ansawdd y gofal a ddarperir yn rheolaidd. Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'u cynrychiolwyr eisoes yn adnabod yn rheolwr yn dda. Dywedodd cynrychiolwyr wrthym fod aelodau'r tîm rheoli bob amser ar gael a'i bod yn hawdd siarad â nhw.

Caiff y rheolwr ei gefnogi gan ddirprwy reolwr a rheolwr gweinyddol. Gwnaethom edrych ar bolisïau allweddol a nodwyd gennym eu bod yn gyfredol ac yn berthnasol ar y cyfan. Roedd angen gwneud man addasiadau i sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael i'r staff ynglŷn â sut i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Gwnaethpwyd hyn drwy gydol yr arolygiad. Mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r tîm rheoli. Dywedodd y staff gofal wrthym fod aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt ac yno bob amser i helpu neu i roi cyngor i'r staff gofal pan fo angen.

Drwy gydol ein hymweliad, gwelsom fod nifer digonol o staff gofal ar ddyletswydd i gefnogi'r bobl. Nid yw'r gwasanaeth yn ddibynnol ar staff asiantaeth, sy'n golygu bod y bobl yn cael eu cefnogi gan staff gofal adnabyddus a chyson. Gwelsom fod y staff gofal yn cymryd eu hamser i ryngweithio â'r bobl. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym y byddai nawr yn recriwtio am aelod ychwanegol o'r staff domestig er mwyn cefnogi gwelliannau i'r amgylchedd.

Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru'n briodol, neu'n gweithio tuag at gofrestru, â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae gwiriadau gan y

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith ac yn gyfredol. Fodd bynnag, nid oes gan y gwasanaeth drefniadau recriwtio a fetio cyson ar waith. Nid oedd cofnodion personél pob aelod o'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn addas i weithio yn y gwasanaeth. Nid oedd rhai o'r ffeiliau yn cynnwys geirdaon digonol, cofnod o hanes cyflogaeth llawn yr unigolyn na rhesymau dros adael eu gwaith blaenorol â phobl agored i niwed. Rhoddodd yr Unigolyn Cyfrifol sicrwydd y bydd gweithdrefnau recriwtio mwy diogel yn cael eu hatgyfnerthu. Byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

Mae aelodau newydd o'r staff yn ymgymryd â sesiynau sefydlu. Gall y staff ymgymryd â hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb i ddiwallu eu hanghenion dysgu. Mae hyfforddwr codi a chario dynodedig yn gweithio yn y gwasanaeth ochr yn ochr â'r staff. Dywedodd aelod o'r staff gofal wrthym, *'[Management] have been really great in helping me to gain further skills and qualifications. I feel that I am progressing here and they are really supportive of me'*. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff gofal wedi cael yr hyfforddiant gorfodol priodol na hyfforddiant gloywi mewn modd amserol sy'n briodol i'w rolau. Rhoddodd yr Unigolyn Cyfrifol sicrwydd y bydd hyn yn cael sylw yn brydlon. Byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

Mae'r staff gofal yn cael cymorth un i un rheolaidd, drwy sesiynau goruchwylio amserol. Mae hyn yn ychwanegol i'r cymorth dyddiol y mae'r staff gofal yn ei gael gan y tîm rheoli pan fo angen. Dywedodd y staff gofal fod aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Dywedodd aelod o'r staff gofal wrthym, '*The training is good. I have done some care before but the training made me feel confident. I get supervision. Had one recently, but I just talk to the seniors or [Manager] if I have a problem'.*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Ni all darparwyr y gwasanaeth fod yn hyderus bod y safle yn rhydd o beryglon i iechyd a diogelwch y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. | Newydd |
| 6 | Ni all darparwyr y gwasanaeth fod yn hyderus bod ganddynt drefniadau clir ar gyfer goruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y canlyniadau gorau posibl a bod y gwasanaeth yn bodloni gofynion y Rheoliadau. Ni all darparwyr y gwasanaeth fod yn hyderus bod ganddynt systemau clir ac effeithiol ar waith sy'n dangos goruchwyliaeth effeithiol o'r gwasanaeth, gan gynnwys nodi ac unioni risgiau yn yr amgylchedd, sicrhau gweithdrefnau recriwtio mwy diogel a rhoi trefniadau digonol ar waith i oruchwylio gofynion hyfforddiant y staff. | Newydd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/08/2024